## *Adroddiad Naratif*

Cyngor Caerdydd yw Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) sydd yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) Cymru a Lloegr. Y CPLlL yw'r cynllun pensiwn galwedigaethol statudol ar gyfer yr holl gyflogeion llywodraeth leol (ac eithrio athrawon) a Llywodraeth y DU sy'n pennu'r rheoliadau.

Cyflawnir cyfrifoldebau'r Cyngor fel rheolwr y Gronfa drwy'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau sy'n goruchwylio strategaethau a pholisïau'r Gronfa. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sy'n rheoli'r Gronfa'n weithredol. Mae'r Bwrdd Pensiynau Lleol yn cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r CPLlL a gofynion y Rheolydd Pensiynau ac i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau hefyd yn parhau i gael cymorth gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi y mae ei aelodaeth yn cynnwys dau gynghorydd annibynnol.

Roedd yna 44,229 o aelodau yn y Gronfa ar 31 Mawrth 2023 gyda 17,660 o weithwyr yn cyfrannu, 12,880 o bensiynwyr a 13,689 o aelodau gohiriedig.

Gwerth asedau Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2023 oedd £2,635 miliwn, gostyngiad o 2.1% o gymharu â'r prisiad ar 31 Mawrth 2022 sef £2,693 miliwn. Roedd 2022 yn flwyddyn anodd i farchnadoedd Buddsoddi yn fyd-eang wrth i'r farchnad gael ei heffeithio gan barhad y rhyfel yn Wcráin a chynnydd yng nghyfraddau llog y Banc Canolog mewn ymateb i gynnydd mewn chwyddiant. Mae Chwarter 1 2023 wedi gweld arwyddion o welliant ond fel y gwelwyd gan ddigwyddiadau diweddar gyda banciau byd-eang, mae'r marchnadoedd buddsoddi yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Gan mai dim ond daliadau cyfyngedig mewn Giltiau Llywodraeth y DU oedd gan y Gronfa a dim Buddsoddiadau a Yrrir gan Atebolrwydd (BYA) nid oedd unrhyw effaith sylweddol ar y Gronfa o "argyfwng hylifedd" Medi 2022 lle roedd prisiau Giltiau gostyngedig wedi arwain at rai Cronfeydd Pensiwn yn gwerthu asedau i gynnal lefelau hylifedd mewn asedau BYA.

Parhaodd wyth awdurdod y gronfa CPLlL yng Nghymru i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn gyda datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Mae'r ffocws yn ystod 2022/23 wedi bod ar sefydlu is-gronfeydd Marchnad Preifat PPC yn ogystal ag is-gronfeydd Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC. Cyhoeddwyd Rheolwyr Cronfa Fuddsoddi ar gyfer yr is-gronfeydd Credyd Preifat, Seilwaith ac Ecwiti Preifat a dylai'r rhain gael eu lansio yn 2023/24. Bydd y Gronfa Ecwiti Gynaliadwy yn cael ei lansio ym mis Mehefin 2023.

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gwerth asedau'r Gronfa a gadwyd mewn saith is-gronfa PPC yn 63% o gyfanswm gwerth y Gronfa sy'n cynyddu i 86% o werth y gronfa os cynhwysir cronfa BlackRock a gafaelwyd ar y cyd.

Ym mis Chwefror 2022 cafodd PPC wybod fod ei chais i barhau i fod yn un o lofnodwyr Cod Stiwardiaeth 2020 y DU wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Adrodd Ariannol (CAA). Mae'r llwyddiant hwn yn dangos ymrwymiad Cronfeydd CPLlL Cymru, gan gynnwys y Gronfa hon, i Fuddsoddi Cyfrifol (BC), a fydd yn parhau i gael ei ddatblygu dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r Gronfa hon wedi dechrau'r gwaith i ystyried gosod ei tharged "Sero Net" ei hun a fydd yn parhau tan 2023/24.

Yn 2022/23 cwblhaodd Aon, Actiwarïaid y Gronfa, eu prisiad actiwaraidd bob tair blynedd o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2022. Gwelodd y canlyniadau gynnydd bach yn y lefel ariannu i 98%, o gymharu â 96% ar gyfer prisiad 2019 ond gyda phwyll ychwanegol wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2022, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer y chwyddiant uchel a gyflwynwyd gan Fynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) Medi 2022. Y gyfradd Cyfraniad Cyflogwyr ar gyfartaledd ar gyfer y Gronfa yn ei chyfanrwydd oedd 19.2%, gostyngiad o 2.3% o gymharu â'r gyfradd gyfatebol yn 2019.

**Christopher Lee**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau**

## *Datganiad Asedau Net*

| 2021/22 | | Nodyn | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **£000** | | | **£000** |
| 2,620,864 | Buddsoddiadau ar werth y farchnad | 12 | 2,547,762 |
| 72,253 | Arian parod (gan gynnwys deilliadau) ac enillion buddsoddi sy'n ddyledus | 12 | 87,646 |
| **2,693,117** | **Cyfanswm buddsoddiadau** | | **2,635,408** |
| 74 | Treth y DU a thramor | | 76 |
| 5,509 | Cyfraniadau sy'n ddyledus gan gyflogwyr ac ariannu diffyg | | 3,369 |
| 327 | Dyledwyr amrywiol | | 809 |
| 1,153 | Costau straen pensiwn sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | 1,772 |
| **7,063** | **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **6,026** |
| 68 | Ariannu diffyg (cyn-gyflogwyr) | | 0 |
| 1,296 | Costau straen pensiwn sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | | 491 |
| **1,364** | **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **491** |
| (69) | Buddion heb eu talu | | (591) |
| (1,478) | Credydwyr amrywiol | | (905) |
| (217) | Darpariaeth - grantiau marwolaeth | 20 | (490) |
| **(1,764)** | **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,986)** |
| (898) | Darpariaeth - grantiau marwolaeth | 20 | (650) |
| **(898)** | **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(650)** |
| **2,698,882** | **Asedau net y cynllun** | | **2,639,289** |

## *10. Treuliau Rheoli*

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 1,730 | Costau gweinyddu | 1,370 |
| 73 | Ffioedd archwilio | 43 |
| **1,803** | **Cyfanswm costau gweinyddu** | **1,413** |
| 430 | Ecwitïau * | 0 |
| 199 | Cronfa Gredyd PPC | 171 |
| 139 | Cronfa Marchnadoedd sy'n Datblygu PPC | 124 |
| 661 | Cronfa Twf Byd-eang PPC | 758 |
| 529 | Cronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC | 424 |
| 241 | Cronfa Bondiau'r Llywodraeth PPC | 222 |
| 124 | Cronfa Credyd Aml-ased PPC | 108 |
| 155 | Cronfa Ecwiti y DU PPC | 150 |
| 944 | Cronfa Ecwiti Gyfun * | 53 |
| 179 | Buddsoddiadau eiddo cyfun | 1,473 |
| 2,354 | Ecwiti preifat ** | 1,172 |
| **5,955** | **Cyfanswm ffioedd rheoli** | **4,655** |
| 272 | Ffioedd gwarchod | 321 |
| **6,227** | **Cyfanswm treuliau rheoli buddsoddi** | **4,976** |
| 265 | Costau goruchwylio a llywodraethu | 197 |
| **8,295** | **Cyfanswm** | **6,586** |

**Gostyngiad 2022/23 mewn ecwitïau a chronfa gyfun ecwitïau* oherwydd trosglwyddiadau i PPC yn 2021/22
***Mae ecwiti preifat 2021/22 yn cynnwys ffioedd trydydd parti sy'n dod i gyfanswm o £0.739 miliwn na ddylai fod wedi'u cynnwys yn tabl hwn ond a gafodd eu cynnwys o fewn addasiadau sy'n bwydo trwy Nodyn 12a, y Newid yng Ngwerth y Farchnad. Y gwerth cyfatebol wedi'i eithrio'n gywir ar gyfer 2022/23 oedd £0.337 miliwn.*

| 2021/22 | Treuliau Rheoli PPC | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 163 | Ffioedd rheolwyr cronfa | 833 |
| 1,550 | Costau trafodion | 1,124 |
| 335 | Costau trosglwyddo | 0 |
| 231 | Ffioedd gwarchod | 297 |
| **2,279** | **Cyfanswm treuliau rheoli buddsoddi PPC** | **2,254** |
| 135 | Costau awdurdod cynnal | 158 |
| **135** | **Cyfanswm costau goruchwylio a llywodraethu PPC** | **158** |
| **2,414** | **Cyfanswm** | **2,412** |

Mae cost rhan y Gronfa yng nghyd-drefniant cyfuno buddsoddiadau PPC wedi'i chynnwys mewn Treuliau Rheoli yn nhabl cyntaf y nodyn hwn. Dadansoddir y rhain ymhellach yn y tabl uchod. Y costau Goruchwylio a Llywodraethu yw costau rhedeg blynyddol y gronfa sy'n cynnwys costau'r awdurdod cynnal a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Ariennir y costau hyn yn gyfartal gan bob un o'r wyth cronfa bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Ffioedd Rheoli Cronfa yn daladwy i Link Fund Solutions (gweithredwr PPC ac maent yn cynnwys y ffi gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran canran pob Cronfa o asedau cyfun PPC ac maent yn cael eu didynnu o'r Gwerth Asedau Net (GAN). Ni chynhwysir ffioedd sylfaenol rheolwyr yn y tabl hwn.

## *11. Incwm Buddsoddi*

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 0 | Cronfeydd Ecwiti Preifat | (224) |
| (2,428) | Ecwitïau Byd-eang * | 0 |
| (22,148) | Buddsoddiadau cyfun * | (37,153) |
| (1,177) | Incwm Ymddiriedolaeth Unedau Eiddo Cyfun | (3,027) |
| (200) | Llog ar arian parod yn y DU | (1,865) |
| (203) | Benthyg ar warantau | (215) |
| **(26,156)** | **Cyfanswm** | **(42,484)** |

**Symud rhwng categorïau yn ystod 2021/22 oherwydd trosglwyddo i fuddsoddiadau PPC*

## *12. Buddsoddiadau ar Werth y* Farchnad

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 216,400 | Cronfa Gredyd PPC | 198,116 |
| 115,003 | Marchnadoedd sy'n Datblygu PPC | 110,799 |
| 211,609 | Twf Byd-eang PPC | 209,723 |
| 530,428 | Cyfleoedd Byd-eang PPC | 531,513 |
| 243,194 | Cronfa Bondiau'r Llywodraeth PPC | 230,817 |
| 150,309 | Cronfa Credyd Aml-ased PPC | 140,935 |
| 232,958 | Cronfa Ecwiti y DU PPC | 242,488 |
| **1,699,901** | **Cyfanswm cronfeydd cyfun PPC** | **1,664,391** |
| 616,030 | Ecwiti cyfun | 590,795 |
| **2,315,931** | **Cyfanswm y cronfeydd cyfun (gan gynnwys PPC)** | **2,255,186** |
| 201,606 | Buddsoddiadau eiddo cyfun | 183,538 |
| 103,327 | Ecwiti preifat | 109,038 |
| **2,620,864** | **Is-gyfanswm** | **2,547,762** |
| 2,194 | Arian parod y rheolwr cronfa | 5,115 |
| 70,059 | Arian parod mewnol / arian parod ceidwad | 82,531 |
| 0 | Enillion buddsoddiadau net dyledus | 0 |
| **72,253** | **Cyfanswm arian parod** | **87,646** |
| **2,693,117** | **Cyfanswm asedau buddsoddiadau** | **2,635,408** |

# 13. Crynodeb o werthoedd portffolio'r rheolwr

| 2021/22 | | Rheolwr y Gronfa | 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|
| **£000** | **% o'r Gronfa** | | **£000** | **% o'r Gronfa** |
| 616,030 | 22.9 | Blackrock Investment Management | 590,795 | 22.4 |
| 1,699,901 | 63.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) | 1,664,391 | 63.2 |
| 65,292 | 2.4 | CBRE - Eiddo Byd-eang | 70,052 | 2.7 |
| 30,711 | 1.1 | Blackrock - BPF - UK Property | 25,921 | 1.0 |
| 34,922 | 1.3 | Schroder UK Real Estate | 29,270 | 1.1 |
| 39,249 | 1.5 | Standard Life Property | 31,429 | 1.2 |
| 31,433 | 1.2 | UBS Triton Property Fund | 26,866 | 1.0 |
| 21,908 | 0.8 | Capital Dynamics | 20,559 | 0.8 |
| 34,499 | 1.3 | Harbourvest | 33,278 | 1.3 |
| 46,920 | 1.7 | Pantheon | 55,201 | 2.1 |
| 5,088 | 0.2 | Arian parod gyda cheidwad | 5,115 | 0.2 |
| 67,164 | 2.5 | Rheolir yn fewnol (arian parod) | 82,531 | 3.0 |
| **2,693,117** | **100.0** | **Cyfanswm** | **2,635,408** | **100.00** |

# 13a. Buddsoddiadau sy'n fwy na 5% o asedau net

Mae'r buddsoddiadau canlynol yn cynrychioli mwy na 5% o'r asedau net sydd ar gael i dalu buddion (naill ai yn 2021/22, 2022/23 neu'r ddwy flynedd).

| 2021/22 | | Rheolwr y Gronfa | 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|
| **£000** | **% yr asedau net** | | **£000** | **% yr asedau net** |
| 616,030 | 22.8 | BlackRock Low Carbon Tracker Fund | 590,795 | 22.4 |
| 216,400 | 8.0 | Cronfa Gredyd PPC | 198,116 | 7.5 |
| 211,609 | 7.8 | Twf Byd-eang PPC | 209,723 | 7.9 |
| 530,428 | 19.7 | Cyfleoedd Byd-eang PPC | 531,513 | 20.1 |
| 243,194 | 9.0 | Cronfa Bondiau'r Llywodraeth PPC | 230,817 | 8.7 |
| 150,309 | 5.6 | Cronfa Credyd Aml-ased PPC | 140,935 | 5.3 |
| 232,958 | 8.6 | Cyfleoedd yn y DU PPC | 242,488 | 9.2 |

# 14. Offerynnau Ariannol

## 14a. Dosbarthu offerynnau ariannol

| Gwerth ar 31/03/22 | | | | Gwerth ar 31/03/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth teg drwy elw a cholledion** | **Cost wedi'i Hamorteiddio** | **Rhwymedigaethau ariannol ar gostau wedi'u hamorteiddio** | | **Gwerth teg drwy elw a cholledion** | **Cost wedi'i Hamorteiddio** | **Rhwymedigaethau ariannol ar gostau wedi'u hamorteiddio** |
| **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** |
| 2,315,931 | 0 | 0 | Cronfeydd cyfun | 2,255,186 | 0 | 0 |
| 201,606 | 0 | 0 | Ymddiriedolaethau eiddo cyfun | 183,538 | 0 | 0 |
| 103,327 | 0 | 0 | Ecwiti preifat | 109,038 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Deilliadau | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 72,253 | 0 | Arian Parod | 0 | 87,646 | 0 |
| 0 | 8,427 | 0 | Dyledwyr | 0 | 6,517 | 0 |
| **2,620,864** | **80,680** | **0** | **Cyfanswm asedau ariannol** | **2,547,762** | **94,163** | **0** |
| 0 | 0 | (1,547) | Credydwyr | 0 | 0 | (1,496) |
| **0** | **0** | **(1,547)** | **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **0** | **0** | **(1,496)** |
| **2,620,864** | **80,680** | **(1,547)** | **Asedau ariannol net** | **2,547,762** | **94,163** | **(1,496)** |

## 14b. Enillion a cholledion net ar offerynnau ariannol

| 31/03/22 | | 31/03/23 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 150,233 | Gwerth teg drwy elw a cholledion | (110,604) |
| **150,233** | **Cyfanswm asedau ariannol** | **(110,604)** |
| 613 | Cost wedi'i Hamorteiddio | 51 |
| **613** | **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **51** |
| **150,846** | **Asedau ariannol net** | **(110,553)** |

## 14d. Hierarchaeth Gwerth Teg

Fel y manylir uchod cafodd buddsoddiadau eu dosbarthu i dair lefel yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg. Mae'r tabl canlynol yn darparu dadansoddiad o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn yn seiliedig ar y lefel y gellir gweld y gwerth teg.

| Gwerth ar 31/03/23 | Dyfynbris y farchnad | Defnyddio mewnbynnau gweladwy | Gyda mewnbynnau sylweddol anweladwy | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Asedau ariannol ar werth teg | 0 | 2,255,186 | 292,576 | 2,547,762 |
| Cost wedi'i Hamorteiddio | 94,163 | 0 | 0 | 94,163 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **94,163** | **2,255,186** | **292,576** | **2,641,925** |
| Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio | (1,496) | 0 | 0 | (1,496) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **(1,496)** | **0** | **0** | **(1,496)** |
| **Asedau ariannol net** | **92,667** | **2,255,186** | **292,576** | **2,640,429** |

| Gwerth ar 31/03/22 | Dyfynbris y farchnad | Defnyddio mewnbynnau gweladwy | Gyda mewnbynnau sylweddol anweladwy | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Asedau ariannol ar werth teg | 0 | 2,315,931 | 304,933 | 2,620,864 |
| Benthyciadau a symiau derbyniadwy | 80,680 | 0 | 0 | 80,680 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **80,680** | **2,315,931** | **304,933** | **2,701,544** |
| Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio | (1,547) | 0 | 0 | (1,547) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **(1,547)** | **0** | **0** | **(1,547)** |
| **Asedau ariannol net** | **79,133** | **2,315,931** | **304,933** | **2,699,997** |

Unioni mesuriadau gwerth teg yn Lefel 3

| 2022/23 | Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/22 | Trosglwyddiadau i lefel 3 | Trosglwyddiadau allan o lefel 3 | Pryniadau | Gwerthiannau | Enillion / (colledion) nas cyflawnwyd | Enillion / (colledion) a gyflawnwyd | Gwerth ar y Farchnad ar 31/03/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ecwiti preifat | 103,327 | 0 | 0 | 15,038 | (13,359) | 4,032 | 0 | 109,038 |
| Ymddiriedolaethau unedau eiddo cyfun | 201,606 | 0 | 0 | 2,691 | 0 | (20,759) | 0 | 183,538 |
| **Cyfanswm** | **304,933** | **0** | **0** | **17,729** | **(13,359)** | **(16,727)** | **0** | **292,576** |

